

Aseiniad ECAD6008

Dydd Gwener, 29 Tachwedd 2019 09:45

- 1. Cyflwyno enghreifftiau eglurhaol o PAP.
- 2. Adfyfrio beirniadol ysgrifenedig ar eich cynnydd o ran cynllunio a gweithredu'r egwyddorion addysgegol, gydag argymhellion ar gyfer sicrhau cynnydd pellach.

Enw: Mr. Ethan Smith

Llwybr: TAR Cynradd (Grŵp 9/K)

Targedau o'r aseiniad blaenorol:

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn
T1	Sicrhewch fod yr holl gyfeirnodï'n bodloni arferion Harvard	Dilynais ganllawiau'r prifysgol sydd i gael ar Moodle
T2	Ystyriwch safbwyntiau gwahanol er mwyn cyfoethogi'ch ysgrifennu academiaidd	Rwyf wedi mynd ati i wrthbrofi neu beirniadu egwyddorion Donaldson gyda ystod o ddarllen cefndirol. Es i ati i ysgrifenu'n sgeptigol ar sail beth sydd yn ei lle yn barod, gan gefnogi â weithydd sawl ymchwilwr ar y maes. Hefyd, credaf mae yna ymdrech i herio beth sydd yn ei lle yn barod o ran
T3	Datblygwch mwy o feirniadaeth yn eich ysgrifennu, yn hytrach na bod yn rhy ddisgrifiadol	Credaf rwyf wedi llwyddo i gyflwyno ochr beirniadol i'r usgriofenu, yn enwedig o ran fy ymarfer i, a pha addysgeg rwyf wedi mabwysiadu.

Linc i'r dolen: https://uwotds-my.sharepoint.com/:o/g/personal/1400352_student_uwotds_ac_uk/ElxuDN-wMiNjIHYC8X0unMcBBWCO3rDk_iKHggDbghoUqQ

Agweddau Trawscwricwlaidd

Dydd Gwener, 3 Ionawr 2020 09:48

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Cychwyn gyda'r ffon gyfri, trafod y canlynol: ➢ Degau ➢ Unedau ➢ Odrifau ➢ Eilrifau Ymestyn y ffon gyfri "Beth fydd fan hyn taswn ni'n mynd ymlaen eto?". AGD: ➢ Cwestiynau Mawr ➢ Dewis o atebion, consensws ➢ Gweledwr "Ai odrif yw hwn?" Darnau o arian gweladwy trwy'r weledwr er mwyn sbarduno diddordeb.	Cyfluoedd i ddysgu'n annibynnol: Cymhwyso rhifau efo'r Siop Ofod. Cysylltu'r testun gyda'r digwyddiad priodol. Gwaith pen: ➢ Rhifau 1-50, adnabod yr odrifau ac eilrifau. ➢ Dewis pa ddarnau o arian i gymhwyso er mwyn cyrraedd swm a rhoddir. Annog plant i feddwl pa darn o arian yw'r gwerth mwyaf a pha ddarn yw'r cyn lleiaf.	- Lluniau - Gweledwr - Taflien Gwaith Adnoddau –

Ffigwr 1.1: Enghraifft o gwestiynu arwynebol ar bwnc. Gellid cyfeirio at ffigwr 2 er mwyn gweld y cynnydd pwrpasol gyda chwestiynu.

Ar sail beth sy'n gwtio'r penderfyniad o'r fath yma o gwestiynu ar lawr y dosbarth, mae yna pwyslais i ysgogi meddylfryd crtiogol gyda'r addysgegau sydd o dan sylw, ac felly dyma ymdrech i gydymffurfio â reini.

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Sbardun: Clociau'r byd, cyfatebu gyda ein thema gofod yn fras. Clip fideo: Defnyddir clip fideo o long ofod yn teithio o amgylch y Ddaear. "Beth sy'n fwy eiliadau neu munudau?" "Beth sy'n llai, munud neu awr?" Cysyniad newydd: Sawl awr sydd mewn diwrnod. Ar gyfer y tasg ffocws bydd angen eglurhâd uwch ar hyn. AGD: ➢ Cwestiynau Mawr ➢ Dewis o atebion, consensws ➢ Ffin-lolipop ➢ Meddwl, paru, rhannu	Ymateb i gwestiynau, yna fe fydd cyfnod i sbarduno trafodaeth gyda MPRh. Gofyn cwestiynau i'w gilydd er mwyn ymestyn ar ddealldwriaeth sydd ganddyn nhw yn barod. Dysgu ymisg ei gilydd o ganlyniad i gwestiynu. - Adborth i'r athro - Cyfateb lluniau yn rhyngweithiol - Defnyddio'r clociau fach i mynd ati gyda'r her	Bwrdd gwyn rhyngweithiol Clociau'r byd Clociau fach (cyfarpar) Clip fideo

Ffigwr 1.2: Wedi cyfnod o adlewyrchu ar arferion cwestiynu sylweddolais mae yna lle i wella gyda'r ystod o gwestiynu, yn enwedig ar sail gofyn cwestiynau agored ac arweiniol yn hytrach na chwestiynau caeedig. O ganlyniad i'r agwedd yma i'r ddeialog, credaf mae yna dadl cryf y mae'r egwyddor canlynol yn cael ei chyflawni.

"Mae addysgu a dysgu da ydychydig yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol."

Wrth ystyried y pwnc yn fwy, gallwn cyfeirio at yr egwyddor isod:

"Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfluoedd yn cael eu darparu i'w harfer."

Mae'r dadleuon a roddwyd ar y pwnc uchod i gyd yn cytûn y mae'r addysgu gorau yn digwydd pan fydd yr uchod yn derbyn sylw ar draws pob wers. Gellid cyfeirio at yr ardal o Ffigwr 2 sydd wedi'i hamgylchynu yn lûs. Rydyn ni fel dosbarth blwyddyn 2 wedi cyffwrdd ar sawl agwedd o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Ni raid chwilio ymheli i ganfod mae'r dull gorau i ddarparu ar wersi thema yw i gyfuno hwy efo'r thema dan sylw. Yn yr achos yma, mae'r dosbarth wedi derbyn gwers flaenorol ar deithio'r gofod pell yn roced, ac felly, mae yna cyfle i osod cyd-testun iddyn nhw er mwyn datrys y cysyniad newydd yma o amser.

TLRP principles

foundation for learning:

Effective teaching and learning requires teachers to scaffold learning. Teachers should provide activities which support learners as they move forward, not just intellectually, but also socially and emotionally, so that once these supports are removed, the learning is secure. (Principle 4)

Effective teaching and learning fosters both individual and social processes and outcomes. Learning is a social activity. Learners should be encouraged and helped to work with others, to share ideas and to build knowledge together. Consulting learners about their learning and giving them a voice is both an expectation and a right. (Principle 7)

Ffigwr 1.3: Gyferbyn, cawn ddarn o waith Andrew Pollard (2014) sy'n seiliedig ar hyffroddi athrawon adlewyrchol. Credaf mae'r ail rhan, wedi'i hamgylchynu yn binc, yn atgyfnerthu ein ailgwyddor dan sylw. [2]

Asesu ar Gyfer Dysgu: Enghraifft wedi'i labelu 01

Dydd Mercher, 1 Ionawr 2020 09:48

Ffigwr 2.0

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) Rhan 2	Sbardun: Clociau'r byd, cyfatebu gyda ein thema gofod yn fras. "Beth sy'n fwy eiliadau neu munudau?" "Beth sy'n llai, munud neu awr?" AGD: ➢ Cwestiynau Mawr ➢ Dewis o atebion, consensws ➢ Ffin-lolipop "Beth allech chi wneud mewn munud?" "Beth allech chi wneud mewn awr?" "Sawl funud sydd yn awr?" eglurhâd sylweddol ar hwn gan fod ddim ond rhai sy'n deall y cysyniad. Rhan 3	- Adborth i'r athro - Cyfateb lluniau yn rhyngweithiol - Defnyddio'r clociau fach i mynd ati gyda'r her	Bwrdd gwyn rhyngweithiol Clociau'r byd Clociau fach (cyfarpar)

	Adrannau wedi'i ddadansoddi
Rhan 1	Mae'r pwyslais ar gwestiynau mawr wedi sicrhau meddwl annibynnol i ddysgwyr ar lawr y dosbarth tra fy mod i'n addysgu nhw. Credaf mae'r dull yma yn canolig i danio dychymyg unigolyn ac i hyrwyddo sgiliau creadigol. Rhoddaf cwestiwn mawr iddyn nhw gan ddilyn â dull AGD Meddwl, Paru, Rhannu. Gellid cytuno felly mae yna cyfle iddyn nhw archwilio'r syniad a rhoddwyd cyn symud ymlaen at un newydd.
Rhan 2	Mae datblygu cwestiynu fel strategaeth addysgeg yn cael ei hyrwyddo gan Black a Wiliam (1998) a Llywodraeth Cymru (2013) fel dull effeithiol o ddefnyddio mewn modd trawsgwricwlaidd trwy holl addysgu a dysgu'r Meysydd Dysgu a Phrofiadau. Serch hynny, mae integreiddio Afl effeithiol i addysgu yn cael ei annog gan Donaldson (2015) fel un o'r egwyddorion addysgeg. Dylai hyn hefyd ddatblygu agweddau Model ASK Nottingham (2013). Rwyf wedi sefydlu cwestiynu fel agwedd hollbwysig i'm addysgeg, yn enwedig yn y flynyddoedd cynnar. Credaf mae yna dyletswydd i gychwyn pwnc efo cwestiwn er mwyn sbarduno diddordeb, dyma syniad sy'n plethu'n amlwg gyda egwyddor 3. Dewisiais y dulliau yma er mwyn gosod sylfaen o sgiliau feddwl uwch i'r plant, sy'n magu hyder nhw yn ei hannibynniaeth.
Rhan 3	Gofynnir cwestiynau yn debyg i'r enghraifft hon yn aml, credaf mae'n bwysig i bwyslesio'r gwybodaeth er taw cwestiwn ddi pen-agored y mae.

Er mwyn gosod cyd-testun y wers uchod, rhaid yn gyntaf sefydlu mai dosbarth blwyddyn 2 yw hwn. Dyma un allan o ddau dosbarth blwyddyn 2 sydd i gael yn Ysgol S, i ymestyn yn uwch, dyma'r dosbarth ifancach. Gallwn werthfawrogi mai wahaniaeth ar sail disgwyliadau ganddyn nhw gyda rhai agweddau, yn enwedig rhai sy'n fwy heriol, megis amser. Ar gyfer y wersi Datblygiad Mathemategol neu Rhifedd ar draws y cwricwlwm, rwy'n sicrhau ystod eang o AGD er mwyn sicrhau dealldwriaeth cyson o gysyniadau. Gellid cyfeirio at ddulliau mwy effeithiol nag eraill yn y Cyfnod Sylfaen, rwyf wedi mabwysiadu egwyddorion addysgegol

Wedi arsylwi ar y dull yma yn flaenorol gyda'r mentro i sylwi mae yna llwyddiant sylweddol o ran gosod syniadau newydd a hybu trafodaethau.

Meini Prawf Llwyddiant:

- dealldwriaeth o ba cyfeiriad mae'r breichiau yn symud, sef clocwedd
- dealldwriaeth o glocwedd a gwrth-glocwedd
- bydd y dysgwyr yn defnyddio'r geirfa addas i adrodd yr amser megis 'hanner awr wedi'
- mae'r dysgwyr yn cydnabod mai y fraich fach sy'n cynrychioli oriau, a'r fraich hir sy'n cynrychioli munedau
- mae'r dysgwyr yn deall bod un cylchdroad o'r fraich fyr sy'n cynrychioli un awr wedi pasio

Tystiolaeth ychwanegol:

Ffigwr 2.1: Enghraifft o amser cylch o fewn gwers Celfyddydau Mynegiannol yn ymddwyn fel cyfle i asesu yn ffurfiannol ar waith blaenorol y dysgwyr o fewn y wers honno. Mae'n bwysig nodi hefyd yn y llun islaw mae'r dysgwyr wedi cael cyfle i gyflwrdd âg eitem sbardun ar gyfer her nesaf y wers, mae hwnnw yn cael ei osod o amgylch.

nodiadau ynghylch cyd-destun y cymhwysyo (e.e. oedran/grŵp/ffocws y wers ac ati)

Dyma wers a dysgwyd ar y 21ain o Dachwedd 2019 i ddosbarth Blwyddyn 2B. Ar gyfer ffocws y wers ymchwilwyd i 'Adnabod priodweddau cloc a phrif cysyniadau adrodd yr amser.' Mae'r wers yma yn cwmpasu'r Maes Dysgu a Phrofiad Rhifedd. Gyda phwylsais ar yr elfen canlynol o'r Maes Dysgu Rhifedd:

Elfen o'r Maes Dysgu Datblygiad Mathemateg: Adnabod prosesau a chysylltiadau > Datrys Problem > adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiaid.

Am y tasg ffocws gyferbyn, cafodd hyn ei osod i'r ddau grŵp gallu is. Dyma grynodedb o ddisgwyliadau yn yr achos yma:

- Mercher (Grŵp 3/4)**
- yn annibynnol tra'n cydnabod yr amser sy'n cyfateb gyda'r llun
 - angen cefnogaeth i ddarllen ambell i frawddeg
 - llwyddo i raddau i ddyfeisio syniadau ond rhoddwyd gymorth i feddwl am sut i ddisgrifio
 - mae angen cyfeirio yn aml at y meini prawf i gadw cyfnod o'r dasg
- Sadwrn (Grŵp 4/4)**
- mae angen cefnogaeth uwch arnyn nhw
 - angen cefnogaeth i ysgrifenu'n daclus ac i sillafu
 - llwyddo i raddau i ddyfeisio syniadau ond rhoddwyd gymorth i feddwl am sut i ddisgrifio
 - mae angen cyfeirio yn aml at y meini prawf i gadw cyfnod o'r dasg

rhesymwaith dros y dewisiadau a wnaethpwyd wrth gymhwyso (pam y dewisoch wneud rhywbeth mewn modd penodol a beth allai fod wedi llywio'ch dewisiadau) pwyntiau gwerthusol yn gysylltiedig â'r cymhwysyo





Cyflwyniad

Gadewch i ni ddechrau gyda chipolwg ar ble yn union mae Ysgol S yn sefyll yn ôl ystadegau. Mae'r ysgol wedi'i labelu'n ysgol wyrdd, o ran lleoliad mae'n sefyll i Ogledd Dwyrain Sir Gaerfyrddin, gellid ystyried yr ardal yn un wledig. Mae yna cyfanswm o 296 o ddisgyblion, gyda dim on 3.7% yn derbyn Prydau Bwyd am Ddim, yn is o lawer o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol sef 18.4% (Llywodraeth Cymru, 2017). Cawn presenoldeb o 96% yno.

Rhodddwyd cyllideb o £3,210 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Saron yn 2016-2017. Yr uchafswm fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £ 9,689, gydag isafswm o £ 3,083. Serch hynny mae Ysgol Saron yn sefyll yn y 95/100 safle 100 cynradd ysgolion yn Sir Gaerfyrddin o ran cyllideb yr ysgol fesul disgybl. Yn ogystal â ni, mae'r ysgol yn hyrwyddwyr cadarn o egwyddorion eco a chadwraeth. Cafodd yr ysgol ei arolygu gan Estyn ym mis Ionawr 2017, gosodwyd canlyniadau Rhagorol gyda disgwyliadau'r dyfodol yn Rhagorol ar ben hynny.

Caiff gyfeirnod yr ysgol a'r wybodaeth wedi'i dal yn ôl o'r ddogfen oherwydd rhesymau anhysbysrwydd.

Noda'r Cyngor Gweithlu Addysg (2017) y mae angen cadw trefn i'r canlynol er mwyn sicrhau ymglymiad i'r broses adfyfrio feirniadol:

- sicrhau ystod o dechnegau monitro a recordio
- asesu'r gefnogaeth ychwanegol sydd ei angen ar ddysgwyr er mwyn gosod amcanion dysgu a gall eu recordio
- gosod adborth prydlon a manwl i ddysgwyr o ran cyraeddiadau a chynnydd, yn ogystal â lle i wella
- cefnogi'r proses proffesiynol o adfyfrio gan adnabod cynnydd ble fu'n digwydd wrth ystyried anghenion

Trafodaeth ynghylch y llenyddiaeth ar addysgu a dysgu effeithiol

Gadewch i ni gychwyn gan gyffwrdd ar egwyddor ¹. Er mwyn cefnogi datblygiad y dysgwyr i lefel uwch rwyf wedi ymchwilio i'r dulliau mwyaf effeithiol o gwestiynu. Byddaf yn defnyddio'r model ASK. Mae Nottingham (2013) yn gytûn fel llawer o arbenigwyr addysgeol ar y cysyniad o gwestiynu beth ddylai plant fod yn ei ddysgu yn yr ysgol ac yn cydnabod y gall fod yn anodd i athrawon ddysgu at lefel pob un disgybl. Fodd bynnag, mae Nottingham (2013) yn cydnabod y gall ystyriaeth o allu academaidd yn unig fod yn niweidiol i ddysgu, ac mae'n cydnabod y pwysigrwydd y gall agweddau, sgil a gwybodaeth (ASK) ei gael ar y broses dysgu. Mae Nottingham (2013) yn nodi y gall fod beirniadaeth tuag at ddysgu agweddau, sgiliau a gwybodaeth addysgu, ond awgryma ganddo mae'n cydberthyn yn gadarnhaol â gosod agwedd bositif tuag at ddysgu.

Yn wrthygyferbyniol, mae'r cwricwlwm newydd a amlinellwyd gan Donaldson (2015) yn canolbwyntio'n helaeth ar bwysigrwydd datblygu sgiliau trwy gydol addysg; yn hytrach na gwybodaeth. Felly, gall ymarferwyr anwybyddu pwysigrwydd gwybodaeth, a amlinellwyd gan Nottingham (2013), a phwysleisio addysgu a dysgu sgiliau yn drwm . Yn arwain at gynnydd anghytwys. Gellid yn bendant tynnu sylw at y safbwynt yma wrth ystyried egwyddorion Donaldson; rydyn ni eisoes yn ymwybodol mai ar ffurf drafft yw'r cwricwlwm newydd, ac felly mae yna bendant lle i feirniadu'n briodol. Yn yr achos yma, credaf mai'n hynod o deg i dalu sylw at yr agwedd yma, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. ⁽¹⁾

Yn ôl Coe et al (2014) mae'r asesu gorau yn broses ffurfiannol - a defnyddir mewn modd sy'n atgyfnerthu athro myfyriol a hunangyfeiried. Fodd bynnag, er bod arsylwi yn effeithiol fel proses gyson, ymhlith cyfoedion, mae yna hefyd pwysigrwydd i lenyddiaeth yn ystod y proses addysg. Awgryma gan Coe et al (2014) er gwaaethaf y straen ar adborth ffurfiannol, mae arsylwi cymheiriad a dysgu annibynnol yn elfennau sy'n uchel eu pwys yn ogystal â'r cysyniad blaenorol. Gellid cyfeirio at egwyddor ¹ gan Donaldson (2015) sy'n gyferbyn, mae'r disgwyliadau ar sail AGD sy'n cael ei thrafod ymysg ymchwilwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar yr un agweddau; proses ailadroddus at ganol datblygiad y dysgwyr yw'r bwriad. Rhagfynegir o fewn adroddiad Husbands & Pearce (2012) y mae'r dystiolaeth i gefnogi asesu ffurfiannol fel elfen hanfodol i'r profiad dysgu wedi cynyddu o lawer yn y chwarter canrif ddiwethaf. Maen nhw'n cyfeirio at weithydd Black & William (2010) er mwyn amlygu'r cynnydd ar y maes. Nodir ganddyn nhw mae gwaith Black & William (1998) wedi profi'n allweddol er mwyn canfod mae potensial sylweddol i wella cyflawniad myfyrwyr gan y broses yma.

Wrth ystyried egwyddor ¹, gadewch i ni gychwyn efo peth trosolwg ar bwrpas AGD ar draws addysg yng Nghymru. Rydyn ni fel athrawon yn defnyddio'r dulliau ffurfiannol o AGD yma er mwyn gafael ar ble mae dealltwriaeth disgyblion er mwyn addasu ein dulliau addysgu a chyfarwyddo ein cynllunio. Serch hynny, mae'r proses yn newid yn un pragmatig, sy'n galluogi i athro trefnus gosod cyfres o dargedau ar draws cyfnod, ai targedau personol a phroffesiynol, neu i'r dosbarth cyfan (Pollard 2014). Ni allaf hyrwyddo'r dulliau ffurfiannol yn uwch ar lawr y dosbarth. Pwynt canolog i'w ystyried wrth drin a thrafod AGD yw'r ymasiad o ddulliau ymestyn sydd ar gael wrth addysgu, yn bennaf, y rhai sy'n rhwydd i'w addasu i mewn i wers os oes angen. Pe bawn i'n canolbwyntio ar ffigwr 1.1 unwaith eto, gellid sylwi ar y dull AGD o ffurfio consensws atebion; mae defnydd y dull yma yn hynod o bwysig, yn gyntaf mae'n sicrhau llais y plentyn beth bynnag yw'r gallu. Yn ail, mae'n galluogi i athro sylwi ar ble mae aelodau o'r dosbarth wedi cwmpo tu ôl, ac felly, gellir cefnogi'r uwch. Yn olaf, mae'n fuddiol tu hwnt i ddefnyddio'r atebion llai ffodus i ysgogi meddwl critigol ymysg y plant, ac i gychwyn i sgil o gwestiynu.

Mae hyrwyddo annibyniaeth yn yr ystafell ddosbarth hefyd yn strategaeth addysgeg effeithiol a hoffwn i sefydlu ar lawr y dosbarth. Dyma fwriad sydd hefyd wedi'i amlygu gyda darluniadau sydd i gael yn y ddolen hon. Mae Donaldson (2015) yn gwthio'r cyfle i ddysgwyr dod yn unigolion annibynnol, mae'r sgil hon yn rhedeg trwy gydol ei argymhellion. Mae Black a Wiliam (1998) yn nodi y gall dysgwyr annibynnol ddeillio o allu dysgwyr i hunanasesu.

Gall annibyniaeth fod yn gysylltiedig â chymhelliant cynhenid, mae Pritchard (2014) yn cefnogi hyn, gellid ei ddatblygu hwn ymhellach trwy nifer o wahanol strategaethau megis dysgu dan arweiniad plant a thrwy osod ymrheolaeth (autonomy) i'r plant eu hun. Mae Donaldson yn annog egwyddorion i blant sy'n gysylltiedig â chymryd 'cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain'. Mae yna tuedd o fewn ysgolion arloesol, lle mae'r ysgol yn mynd ati i ddatblygu dysgwyr annibynnol o fewn dosbarth CA2 gan sefydlu maes dysgu arbenning i ddysgwyr MATH. Mae'r ardal MATH yn tebyg i'r cysyniad o unigolyn sy'n hynod o annibynnol. Dynodwyd amser i'r plant trwy gydol y dydd i gael mynediad i faes dysgu arbenning yma. Tra yn yr ardal, rhoddwyd amser i blant i ddysgu'n annibynnol. Yn ogystal â ni, gosodir i'r plant heriau yn seiliedig ar eu galluoedd gwahanol nhw, sy'n gysylltiedig â'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. O ganlyniad i'r ymdrech yma, datblygir gan yr heriau'r pedwar pwrpas craidd ac felly mae'n caniatáu i'r plant profi annibyniaeth mewn modd a hwylywyd gan athrawon. Pe bawn yn ystyried y syniad yma yn fwy, gallwn sefydlu mai cyfleoedd cymhwysedd digidol i gael yn yr achosion yma trwy osod ymrheolaeth o flaen llaw iddyn nhw ddewis tasg thema a'i throsglwyddo i'r iPad. Enghraifft o hwn yn fy ymarfer i, oedd Siop Ofod Digidol Byddai hyn yn enghraifft o'r hyn y byddwn i'n ei wneud fel athro i ddatblygu annibyniaeth y dysgwyr yn fy nosbarth. Gallwn yn bendant cyfeirio at egwyddor ² gyda'r agwedd yma. Yn yr ardaloedd yma mae'n bosib sefydlu ystod o adnoddau addas sy'n gysylltiedig â sbarduno diddordeb yr unigolyn i ddysgu.

Credaf fod y cyflwyniad o'r cysyniad yma yn y Ddarpariaeth Barhaus ar fy lleoliad wedi bod yn un llwyddiannus. Un ochr arall sydd angen ei hystyried yw'r meddylfryd sgeptig sydd ei hangen pan fu'n arloesi gydag egwyddorion Donaldson; mae yna draddodiad i ystyried y broses o addysgu fel un creadigol ac organig, er mwyn cyd-fynd â hwn, rhoddaf ystod o adnoddau yn

1. Mae addysgu a dysgu da'n golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu. (Egwyddor 1)
2. Trwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer. (Egwyddor 2)

ogystal ag heriau gwahaniaethol yn y safleoedd yma er mwyn scaffoldi'r cyfnod annibynnol yma. Rhagfynegaf fy mod i'n llwyddo i gyrraedd egwyddor 2 sydd gyferbyn yn yr enghraifft yma. Eto i gyd, anelaf at fabwysiadu agweddau trawsgwricwlaidd ym mhob gwers. Yn yr achos yma (ffigwr 2) gellid cyfeirio at ymdrech cadarnhaol i blethu mewn agwedd o'n thema gyda phwnc craidd fel Datblygiad Mathemategol.

Yn ôl llwyth o ymchwilwyr yng Nghymru mae yna teimlad y mae addysgeg yn esblygu i fod yn un holistaidd. Dywedir yn aml dylen ni fel darparwyr addysg sicrhau mai darpariaeth ganolig i'r plentyn yw ein bwriad. Gan ddweud hyn, mae yna tri dadl pwysig i'w hystyried yn deillio a'r pedagogeg a chysyniad yma. Eisoes mae yna bwyslais ychwanegol a chyd-fynd ag egwyddorion Donaldson o fewn ein hymarfer. Gofynna gan Donaldson (2015) i athrawon darparu â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddysgwyr i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant, credaf fod yna pwysigrwydd i'r gosodiad yma, ond mae yna wrthdaro ymysg ymchwilwyr o ran gosod gormodedd o annibyniaeth i ddysgwyr. Awgryma gan yr athro Pollard (2014) mai yna tuedd i athrawon i orddibynnu ar ddysgwyr i fynd a'u haddysg yn ei flaen. Datganir o fewn y testun mae yna faich ar athrawon sy'n galluogi annibyniaeth ar ail-egluro camau neu negeseuon blaenorol yn gor-aml. Ac felly, awgryma ganddo i sicrhau dealltwriaeth o'r nodau ac amcanion cyn mynd ati i weithgaredd. Mae'r egwyddor uchod yn un sydd at ganol addysgeg yr athro Donaldson, ac un sydd mewn gweithrediad ledled Cymru eisoes. Wrth ystyried yr achos uchod yn ofalus o fewn cyd-destun gwaith Pollard (2014), diffinnir ganddo ef y cysyniad o ddysgu'n annibynnol fel un dadleuol. Yn ôl yr athro, mae'r disgwyliadau ar lawr y dosbarth ddim yn realistig o safbwynt athro neu athrawes. Mae yna ddyletswydd i ymweld â phob un disgybl ar dasg, gan gynyddu'r symudiad o amgylch y dosbarth ac felly fe allech chi ddadlau mae'r awyrgylch wedi aflonyddu. Yn ogystal â ni, mae llinellau yn tueddu i ffurfio tu ôl i athro neu athrawes, sy'n ychwanegu t y nifer sydd ddim eisoes ar dasg. O ganlyniad i'r ethos yma, mae yna leihad yn yr amser y gall athro treulio efo pob unigolyn. Serch y digwyddiadau yma, mae'r awdur yn ychwanegu y mae athro yn tueddu i fonitro ar waith disgyblion yn hytrach na ddatblygu dealltwriaeth. Ar wahân i hynny, gellid dadlau o fewn cyd-destun ysgolion arloesol yng Nghymru, neu ysgolion sydd â phrofiad o weithredu egwyddorion Donaldson, mae yna gymhwysedd ganddynt yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Rhagfynegaf mai dyma o ganlyniad i grwpiau ffocws. (2)

Mae'r dadleuon a roddwyd gan Russel Grigg yn dadlau, er ei fod braidd yn niweidiol ar adegau, mae yna bwysigrwydd i fonitro, asesu a recordio er mwyn cefnogi ansawdd profiadau addysg disgyblion. Mae'n nodi bod angen darparu adborth effeithiol i blant er mwyn gwella eu perfformiad personol (Grigg, 2015). Mae ansawdd adborth ac annibyniaeth i ddysgwyr yn rhan helaeth o egwyddorion addysgegol ar gyfer fod yn athrawon effeithiol yn ôl Grigg (2015). Mae Hattie (2008) hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd adborth effeithiol i ganiatáu i ddysgwyr wella'n llwyddiannus. Mae Briggs et al (2008) yn awgrymu mai buddiol tu hwnt yw adborth llafar yn hytrach nag adborth ysgrifenedig.

Er mwyn symud y dysgu yn ei flaen, fe fydd angen ymchwilio i ffyrdd o roi adborth llafar i'r plentyn lle bo hynny'n bosibl yn y wers. Er bod Briggs et al (2008) yn cydnabod bod yn well gan blant adborth llafar, mae Estyn (2019) yn deall bod angen iddynt hefyd dderbyn adborth ysgrifenedig ar eu gwaith.

Mae Estyn (2019) yn dangos achos o arfer gorau lle mae ysgol yng Ngogledd Cymru yn gweithredu polisi marcio meddylfryd twf. Mae'r athrawon yn marcio mewn pinc am gadarnhaol a gwyrdd ar gyfer twf. Credaf mai'r uchod yn cyd-blethu'n arbennig o dda gyda'r egwyddorion addysgegol yr wyf am fabwysiadu ar draws y profiad addysgu. Gellid gweithredu hyn i ddangos i'r plentyn ble i ddatblygu ac ymestyn ei ddysgu trwy gyfrwng adborth ysgrifenedig.

Adfyfrio beirniadol ar sut rydych wedi gweithredu argymhellion y 3 egwyddor addysgegol ar gyfer datblygiad pellach

Yn y wers Ddatblygiad Mathemategol sydd i weld yn yr adran AGD yn y ddolen hon (Ffigwr 2), fe wnes i gynnwys ystod o strategaethau AGD (wedi'i liwio) i ddatblygu llefaredd o safon. Gosodwyd ffocws ar gwestiynu a Meddwl, Paru, Rhannu fel strategaeth. Dewisais ddefnyddio hon oherwydd ei bod yn strategaeth gyfarwydd i'r dosbarth. Mae Joliffe et al (2017) yn disgrifio cwestiynu fel enghraifft o AGD sy'n 'driving force' i ysgogi meddwl critigol yn yr ystafell ddosbarth ac mae hefyd yn nodi mai cwestiwn da yn bwrpasol, sy'n hyrwyddo trafodaeth, yn caniatáu i bob dysgwr gyfrannu. Ceisiais wneud hyn gyda fy holi yn y wers a nodwyd. Sylweddolwyd mai MPRh wedi llwyddo oherwydd mae'n caniatáu i ddysgwyr rhannu syniadau. Credaf yn yr achos hwn yr oedd yn arbennig o fuddiol. Cynhwysir pob grŵp ar ddiwedd y wers ymatebion i gael adborth a wnaeth ymddangos ei fod yn datblygu ymdeimlad o gydweithredu. Efallai y bydd angen i mi sicrhau fy mod yn ystyried fy strategaethau ar gyfer cael adborth ar ôl gweithgaredd rhannu MPRh i sicrhau nad wyf bob amser yn gofyn i'r dysgwyr mwyaf lleisiol neu hyderus. Mae angen i mi hefyd sicrhau fy mod yn rhoi amser i feddwl yn gyntaf gan fod dysgwyr yn aml yn lansio'n syth i mewn i drafodaeth, naill ai oherwydd brwdfrydedd neu oherwydd fy mod yn anghofio eu hatgoffa i feddwl.

Gellid cyfeirio at sawl enghraifft o feirniadaeth adlewyrchol o fewn y ddolen yma. Defnyddir weithydd Brookfield (2005) a Gibbs (1988) i wneud myfyrdodau ystyrion ar y gwersi a sut i adlewyrchu'n effeithiol. Teimlaf fy mod wedi myfyrio'n gadarnhaol o'r wers gyntaf ac wedi newid yn ôl fy myfyrdodau. Er enghraifft, es i ati i newid o gyd-gynllunio meini prawf llwyddiant fesul dosbarth cyfan, i wneud hyn gyda'r grŵp ffocws yn unig. Felly, sicrhaf gasgliad o ddata mwy manwl gywir. Fe wnes i hefyd newid faint o feini prawf llwyddiant oedd gan y dysgwyr trwy fyfrio cadarnhaol. Mae hyn felly'n cydymffurfio ag ethos Donaldson (2015) sy'n annog i athrawon i fod yn 'ymarferwyr myfyriol' ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Nid yn unig yr ystafell dosbarth yw lle mae dysgu a datblygu sgiliau yn eu digwydd yn ôl Donaldson (2015). Awgryma ymhellach ganddo'r athro mai dysgu yn digwydd yn unrhyw le, ai gartref, cymunedau lleol, neu yn yr awyr agored. Ethos yr athro Donaldson yw y dylen ni fel athrawon ddefnyddio'r gwagleoedd sydd i gael i ddatblygu'r profiad yn un fwy holistaidd. Gellid dadlau hefyd mai amgylchedd dysgu yn fwy na dim ond yr hyn rydych chi'n ei weld, yn enwedig o safbwynt plentyn. Credaf yn bendant mae'r gosodiadau uchod yn rhai sy'n sicrhau amgylchedd cyfoethog i ddysgwyr MATH - mae yna ddyletswydd gan athrawon i ymestyn y disgyblion yma yn uwch. Gallaf fwrw golwg yn ôl yn bositif fy mod i'n cyrraedd targedau efo'i ymestyn yr aelodau yma.

Awgryma gan Harding a Meldon-Smith (2005) y mae asesiadau o fewn cyd-destun lle mae annibyniaeth estynedig i blant yn annibynadwy. Mae'r ddadl wedi'i seilio ar gyd-destun Montessori, cyd-destun sydd wedi ysbrydoli egwyddorion Donaldson o lawer. Gellid felly cyflwyno hyn fel safbwynt sy'n herio'r egwyddorion dan sylw. Credaf fy mod i wedi llwyddo ar y cyfan i gyflwyno'r tair egwyddor hyd yn hyn. Trwy ddefnydd egwyddorion Sherman et al (2005) ar sail arsylwi, rwyf wedi sicrhau fy mod i wedi dilyn y strwythur o gofnodi'n ddfif ar y ddyddiol. Rwyf wedi defnyddio'r argymhellion yma i weithredu proses systematig o adfyfrio sy'n cael ei hadlewyrchu ar draws pob gwers. Ar yr un pryd dylid nodi mae'r argymhellion uchod ar ffurf drafft, ac felly, mae eu gweithredu yn anodd cofnodi'n swyddogol. Ar y llaw arall, gan fod yr egwyddorion craidd yma, megis dysgu annibynnol wedi bod wrth wraidd ein haddysgeg ers tipyn eisoes gallwn adfyfrio'n addas ar hyn. Credaf mai egwyddorion trawsgwricwlaidd ar waith o lawer ar draws pob un o'r enghreifftiau sydd i gael yn yr adran Opsiwn 3. Gallaf ychwanegu hefyd fy mod i'n sicrhau arfer o adfyfrio ar yr egwyddorion yma gyda dulliau Bronfenbrenner (1979) o ran datblygu agwedd positif tuag at adfyfrio er mwyn creu'r profiad dysgu yn un fwy effeithiol.

Gallaf anelu at ddatblygu proses fwy pragmatig o ran adfyfrio beirniadol. Er hynny, rwyf wedi sicrhau cydlynid gyda phob targed sydd wedi'i osod gan fentor, gan ychwanegu'r rhain at fy nghynlluniau. I son eto am ddisgwyliadau y CGA o ran adfyfrio; mae angen proses cyson o gofnodi sydd â disgyblaeth cyson er mwyn sicrhau cynnydd.

Datrysiad a Chamau Nesaf

Tra bod y dadleuon yn efallai'n gywir, mae yna bendant camau nesaf i'w hystyried o ran sut rwyf wedi gweithredu'r tair egwyddor dan sylw. Er gwaethaf y wybodaeth, credaf y bydd newid yn fy ymarfer personol a pharhad o ran datblygiad proffesiynol. Wrth ystyried y pwnc, gellid trafod sut yr wyf wedi sicrhau egwyddor 1; credaf fod y defnydd o gyd-gynllunio meini prawf llwyddiant wedi llwyddo gyda phob adeg yn ystod y gwersi. Er hynny, byddaf yn ceisio ymgorffori'r agwedd hon yn fy athroniaeth addysgu lle bo hynny'n bosib. Er mwyn hyrwyddo targedau cenedlaethol ymhellach ac egwyddorion Donaldson, byddaf yn hyrwyddo'r strategaeth o ddysgu wedi'i arwain gan blant ymhellach, trwy ganiatáu perchnogaeth lawn i'r plant

addasu'r meini prawf llwyddiant trwy gydol y gweithgareddau a rhoddwyd iddynt hwy.

Rhestr Gyfeirio

Dydd Gwener, 3 Ionawr 2020 09:49

Black, P & Wiliam, D. (1998) *Inside the Black Box: Raising Achievement through Classroom Assessment*. London: King's College.

Bronfenbrenner, U. (1979) *The Ecology of Human Development*. Cambridge: Harvard University Press.

Coe, R et al (2014), *What Makes Great Teaching?* Sutton Trust.

Donaldson, G. (2015) *Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales*. Cardiff: Welsh Assembly Government.

Dweck, C. (2014) *Developing a Growth Mindset with Carol Dweck*. Available at: <https://www.youtube.com/watch?v=hiiEeMN7vbQ> [Accessed 1st of January 2020].

Glasson, T. (2009) *Improving student Achievement: a practical guide to assessment for learning*. Victoria: Curriculum Corporation.

Estyn (2019) *Giving pupils the power to learn*. Available at: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/giving-pupils-power-learn> [Accessed 1st of January 2020].

Fisher, D., Frey, N., and Pumpian, I. (2012) *How to Create a Culture of Achievement in Your School and Classroom*. Virginia: ASCD.

Grigg, R. (2010) *Becoming an Outstanding Primary School Teacher*. 1st Edition. London: Routledge.

Harding, J. and Meldon-Smith, L., (2005). *How to make Observations & Assessments*. 5th ed. London: Hodder & Stoughton.

Hattie, J. (2010). *Visible learning*. London: Routledge.

Husbands, C and Pearce, J (2012) *What makes great pedagogy? Nine claims from research*. National College for School Leadership. Available at: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/329746/what-makes-great-pedagogy-nine-claims-from-research.pdf [Accessed 1st of January 2020]

Jolliffe, W. and Waugh, D. (2017) *NQT: The Beginning Teacher's Guide to Outstanding Practice*. London: Sage Publications.

Kyriacou, C., (1998). *Essential Teaching Skills*. 2nd ed. Cheltenham: Stanley Thornes Publishers.

Llywodraeth Cymru, (2013) *Assessment for Learning and the National Literacy and Numeracy Framework*. Cardiff: Welsh Government.

Llywodraeth Cymru, (2015) *Effective use of data and research evidence*. Cardiff: Welsh Government

Llywodraeth Cymru, (2017) *Education in Wales: Our National Mission*. Cardiff: Welsh Government.

McDonald, M. (2002) *Systematic Assessment of Learning Outcomes: Developing Multiple-choice Exams*. London: Jones and Bartlett Publishers.

Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning*. Oxon: Routledge.

Pollard, A. (2014). *Reflective Teaching in Schools: Evidence-Informed Professional Practice*. 4th ed. London: Bloomsbury

Pritchard, A., (2014) *Ways of Learning*. 3rd ed. London: Routledge.

Sherman, et al C., (2005). *Observing Children*. 3rd ed. London: Cassell.

Vincent-Lancrin, S., et al. (2019), *Fostering Students' Creativity and Critical Thinking: What it Means in School*, Educational Research and Innovation, OECD Publishing, Paris [Accessed 1st of January 2020]